

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

(Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot & Microsoft Teams)

Members Present:

Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2025

Chairperson: J.Jenkins

Vice Chairperson: M.Owen

Councillors: S.Grimshaw, O.S.Davies, R.Mizen,
A.J.Richards, A.R.Aubrey, C.Clement-Williams,
J.Henton a/ac A.Lodwig

Officers In Attendance: N.Daniel, H.Jones, C.Owen, S.Payne,
L.McAndrew a/ac N.Jones

Representing Audit Wales: A.Lewis

Voting Lay Member: A.Bagley

Sylwedydd: M.Spanner

1. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Mewn perthynas ag Eitem 6 Archwilio Cymru - Cau Cyfrifon, tynnodd yr aelodau sylw at y rhan a oedd yn nodi bod angen gwneud gwaith ychwanegol gan y tîm Cyllid. Canfuwyd yma fod y cyfrifon yn gywir. Gwnaeth Archwilio Cymru argymhelliad i'r cyngor fod angen adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol ynghylch cyflwyno taliadau mewnol. Cadarnhaodd swyddogion y byddai canlyniad y gwaith hwn yn cael ei ailgyflwyno i'r pwyllgor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Holodd yr Aelodau ynghylch y broses o ran cofnodion cyfarfodydd. Eglurwyd bod proses safonedig ar draws y cyngor ar gyfer pob cofnod. Roedd y cofnodion yn gofnod cyhoeddus o'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod, nid cofnod air am air. Mae cofnod llawn o'r cyfarfod ar gael ar wefan CNPT. Mae'r cofnodion hyn yn cael eu cadw ar y wefan heb ddyddiad dod i ben. Cafodd yr aelodau gyfle i gyflwyno unrhyw faterion ar gywirdeb y cofnodion hynny pan godwyd hwy yn y cyfarfod dilynol.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 9, Adroddiad Dilynol Archwilio Mewnol 2024/25 , a gofynnwyd a fyddai ymateb mwy manwl yn cael ei ddarparu yn y dyfodol o ran "Ymatebion gan Gyfarwyddwyr/Benaethiaid Gwasanaeth/Penaethiaid i Adroddiadau Archwilio Mewnol Cyfyngedig/Dim Sicrwydd".

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

Nododd yr aelodau y byddai adroddiad pellach ar y berthynas rhwng y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei roi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y pwyllgor hwn ym mis Chwefror. Roedd yr adroddiad eisoes wedi'i ystyried a'i gymeradwyo yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

Yn ogystal, cytunwyd y byddai Swyddogion yn rhan o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Flaenraglen Waith er mwyn i aelodau ymgymryd â hunanasesiad o ran pa mor effeithiol a chynhyrchiol yr oeddent yn teimlo oedd y Pwyllgor.

Cynhaliwyd trafodaeth ar nifer yr eitemau i'w hystyried mewn cyfarfodydd ac a oedd cyfle i fwy o gyfarfodydd gael eu rhaglennu.

4. **ARCHWILIO CYMRU - DIGIDOL O FWRIAD? GWERSI O'N HADOLYGIAD O STRATEGAETHAU DIGIDOL AR DRAWS CYNGHORAU YNG NGHYMURU - AWST 2024**

Rhoddodd swyddogion Archwilio Cymru drosolwg i'r aelodau o'r adroddiad 'Digidol o fwriad? Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cynghorau yng Nghymru' a gyhoeddwyd yn ddiweddar, fel a nodir yn y papurau a ddosbarthwyd.

Eglurwyd bod yr adroddiad thematig wedi'i lunio yn dilyn adolygiad strategaeth ddigidol yn 2023 o drefniadau Strategaeth Ddigidol unigol pob un o'r 22 awdurdod lleol i sicrhau gwerth am arian ac i alinio â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn flaenorol, derbyniodd y pwyllgor ganlyniad adolygiad Cyngor Castell-nedd Port Talbot ym mis Ionawr 2024.

Mae'r adroddiad thematig wedi nodi pum gwrs allweddol sy'n ymwneud â thystiolaeth, cydweithio, adnoddau, effaith a dysgu. Maent yn cael eu hystyried fel meysydd cyffredin i'w gwella ac maent yn cynrychioli'r prif gyfleoedd i gynghorau gryfhau eu defnydd o'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a sicrhau gwerth am arian.

O dan y pum gwrs allweddol a nodwyd yn yr adroddiad, mae Archwilio Cymru wedi cynnwys nifer o enghreifftiau o arfer da i'r cyngor eu nodi.

Amlygodd swyddogion fod Castell-nedd Port Talbot wedi'i nodi fel enghraifft o arfer mewn tri o'r pum maes gwrs allweddol, a phan gyflwynwyd canfyddiadau archwiliad Castell-nedd Port Talbot ym mis Ionawr 2024, dim ond un argymhelliad a amlygwyd mewn adroddiad cadarnhaol cyffredinol.

Roedd yr aelodau'n falch o weld bod CNPT yn cael cydnabyddiaeth fel enghraifft o arfer da a nodwyd y cynnydd a wnaed drwy strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg CNPT, yr adroddir arni yn flynyddol i'r Cabinet, gan fynd i'r afael â'r argymhelliad a amlygwyd uchod.

Yn dilyn hynny, gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial.

Eglurodd swyddogion fod seminar ar gyfer yr holl aelodau wedi'i chynnal y llynedd ar y Strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg a oedd yn cynnwys elfennau ar ddeallusrwydd artiffisial.

Mae swyddogion wrthi'n trefnu seminar ar gyfer yr holl aelodau gyda'r Gwasanaethau Democrataidd ar y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yng Nghyngor CNPT a throsolwg o gyfrif newydd fyCNPT ar gyfer preswylwyr.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am eu holl waith caled.

5. **HUNANASESIAD 2023/2024**

Derbyniodd yr aelodau drosolwg o Hunanasesiad 2023/2024, fel a nodir yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

Esboniwyd bod y ddogfen yn hawdd ei defnyddio ac mae'r cynnwys wedi'i ysgrifennu mewn ffordd sy'n sicrhau bod swyddogion yn cael eu dwyn i gyfrif am yr wybodaeth y maent yn ei hychwanegu at yr adroddiad.

Dywedodd swyddogion fod gallu o fewn y tîm bellach wedi'i gryfhau. Y nod yw cyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r pwyllgor erbyn mis Medi 2025.

Amlygodd yr aelodau ei fod yn anodd darllen y ddogfen os ydych yn edrych arni ar ffôn symudol, neu ar iPad.

Gofynnodd yr aelodau, mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth, a yw swyddogion yn cael arfarniadau rheolaidd gyda staff ac a ydyn nhw'n cael eu cynnal.

Dywedodd swyddogion fod gwaith i'w wneud i gryfhau'r broses arfarnu. Mae swyddogion wedi gweld yr arolwg staff a gynhaliwyd y llynedd ac nid yw canran y staff sy'n credu eu bod wedi cael arfarniad mor uchel â'r disgwyl. Soniodd swyddogion y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio maes o law.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y strategaeth gaffael wedi'i chymeradwyo yn 2024. Dywedodd swyddogion ei bod wedi'i chymeradwyo yn ystod haf 2024.

Mewn perthynas â'r 'crynodeb o berfformiad 23/24', meddai'r aelodau ei fod yn nodi bod ganddo 63 nod ar y cyfan, mae 42 ar y trywydd iawn ac mae 3 nad ydynt ar y trywydd iawn, felly beth sydd wedi digwydd i'r nodau eraill. Soniodd yr aelodau hefyd ei bod yn dweud bod mwy o waith i'w wneud, a yw hynny'n golygu nad yw pethau ar y trywydd iawn?

Soniodd yr aelodau am fanylion yr elfennau ac ni chanfuwyd bod y naratif yn gymhellol i gefnogi'r newid. Gofynnodd yr aelodau i'r Swyddogion egluro hyn.

Gofynnodd yr aelodau mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Gwella, a fydd adroddiadau dros dro am gynnydd yn erbyn y camau gweithredu unigol, gan y byddai'n ddefnyddiol gweld y cynnydd hwn.

Dywedodd swyddogion, o ran y dangosfyrddau, mae angen iddynt wella ar y darn o waith hwnnw a chynnal gweithdai unigol ar gyfer pob cyfarwyddiaeth.

O ran y Cynllun Corfforaethol, mae swyddogion wedi symud o fersiwn 2022-2027 ac maent bellach yn gweithio ar fersiwn 2024-2027, gan barhau drwy'r Cynllun Corfforaethol. Roedd nodau pum mlynedd i ddechrau, ac mae swyddogion yn cyflawni'r nodau hynny drwy'r Cynllun Corfforaethol i gyflawni'r amcanion lles. Mae'r blaenoriaethau strategol yn ategu'r nodau. Esboniodd swyddogion eu bod am sicrhau bod ganddynt ddulliau ar waith mewn pryd ar gyfer 2027.

Mewn perthynas â'r 63 o nodau, esboniodd swyddogion eu bod yn edrych ar hyn dros gyfnod o flwyddyn, a bod llawer o'r blaenoriaethau i'w cwblhau dros 3-4 blynedd. Soniodd swyddogion fod angen iddynt fod yn gliriach o ran yr hyn sydd ar y trywydd iawn, yr hyn sydd i'w wneud a'r hyn nad yw ar y trywydd iawn.

Mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Gwella, cyfeiriodd yr aelodau at y disgrifiad o'r camau gweithredu, a oedd yn datgan bod angen datblygu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/2022, a chwblhau hunanasesiad erbyn mis Mawrth 2023. Gofynnwyd i'r aelodau a ddylai'r gwaith fod wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2023 yn gywir, a oedd y gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac yn hwyr, neu a ddylai fod ym mis Mawrth 2025, sy'n cyd-fynd â gweddill y dyddiadau yn y ddogfen.

Dywedodd swyddogion fod disgwyl i'r ddogfen gael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2023, ond mae'n hwyr iawn oherwydd diffyg unrhyw wybodaeth gynllunio ymlaen llaw y gall Llywodraeth Cymru ei darparu, ac mae bellach i'w chyflwyno ym Mawrth 2025. Dywedodd swyddogion fod y gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am y gwaith caled y maent wedi'i wneud.

CHAIRPERSON